









# ADRODDIAD EFFAITH 2020-2021

Grymuso pobl. Ysbrydoli rhagoriaeth. Cryfhau cymunedau.

# EIN CYMORTH

Cymorth Ariannu

Cymorth Llywodraethu

Cymorth Ymarferol

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Gwasanaethau Gwirfoddoli

Gwasanaethau Hyfforddiant a Gwybodaeth

Prosiectau

Gwaith Partneriaeth

## HOFFECH CHI WIRFODDOLI?

Mae gennym gannoedd o gyfleoedd ar gael a gallwn eich helpu i ddod o hyd i'r un iawn i'ch cychwyn ar antur newydd



# CYFLWYNO GVS

Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg (GVS) yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Bro Morgannwg. GVS yw'r corff ambarél ar gyfer Trydydd Sector Bro Morgannwg a'n swyddogaeth yw cynorthwyo, datblygu a chynrychioli sefydliadau Trydydd Sector a hyrwyddo gwirfoddoli ym Mro Morgannwg. Mae gennym aelodaeth sy'n ffynnu o tua 750 o sefydliadau cymunedol sy'n weithredol ym Mro Morgannwg. Rydym yn helpu i wella ansawdd bywyd pobl a chymunedau trwy gynorthwyo gwirfoddolwyr, cyfleoedd gwirfoddoli a grwpiau gwirfoddol.

Mae cymunedau cydlynol sy'n ffynnu angen ymgysylltiad a chyfranogiad gweithredol pobl leol. Ceir swyddogaeth gynyddol i'r Trydydd Sector yn y ddarpariaeth o wasanaethau ac mae ganddynt swyddogaeth hynod werthfawr fel partneriaid ac eiriolwyr i gymunedau lleol. Mae ein gwasanaethau arbenigol yn helpu i ddarparu llwyfan ar gyfer Trydydd Sector bywiog a chadarn.

Ein gweledigaeth yw Trydydd Sector sy'n cael ei werthfawrogi a'i barchu, lle mae GVS yn gwasanaethu fel arweinydd yr ymddiriedir ynddo, partner strategol effeithiol a model o arfer da ar gyfer y Sector.

Ein cenhadaeth yw y dylai GVS fod â'r uchelgais o rymuso pobl, ysbrydoli rhagoriaeth, a chryfhau cymunedau trwy ysgogi a datblygu gweithredu gwirfoddol.



# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae'r adroddiad effaith hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 sydd wedi bod yn flwyddyn anhygoel, ryfeddol ac arloesol arall i GVS. Roedd y flwyddyn dan gysgod y pandemig i bob un ohonom gan gyflwyno llawer o heriau unigryw, ond dangosodd hefyd y cyfraniad aruthrol y gall ac y mae'r Trydydd Sector, cymunedau a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) yn ei wneud i greu a chynnal cymorth a gweithredu effeithiol ar adegau o argyfwng a newid.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos unwaith eto sut mae GVS yn ganolog i wirfoddoli, gweithredu gwirfoddol a gwaith partneriaeth effeithiol ar draws Bro Morgannwg. O wynebu difrifoldeb a hyd digynsail y cyfyngiadau symud, ymatebodd GVS a'i staff gyda brwdfrydedd, ymroddiad, caredigrwydd a hyblygrwydd nid yn unig i ddarparu mwyafrif y gwasanaethau presennol, ond hefyd i ddiwallu anghenion a bodloni gofynion newydd mewn ffyrdd arloesol.

Roedd y cyfraniadau unigryw hyn yn amrywio o ddarparu cymorth uniongyrchol i unigolion â mynediad at fwyd, meddyginiaeth, gwybodaeth a chymorth, i ddosbarthu cyfarpar diogelu personol i grwpiau cymunedol rheng flaen lleol a throi CF61 yn ganolfan frechu wythnosol.

Arweiniodd dymuniad y cyhoedd i helpu at gynnydd o 1000% i wirfoddolwyr yr oedd ein gwasanaeth gwirfoddoli yn gallu ei gyfateb â chyfleoedd addas.
Daeth codi arian yn llawer mwy anodd wrth i'r pandemig barhau, ond gyda chymorth gan ein partneriaid statudol llawn cydymdeimlad a'n gwasanaeth cyngor ariannu a werthfawrogir yn fawr, fe wnaethom lwyddo i ddenu dros £1 filiwn i helpu sefydliadau oroesi'r argyfwng. Tra bod hyn i gyd yn digwydd, roeddem hefyd yn gwneud cynnydd araf ond cyson ar ein hadeiladau yn Eglwys Sant Paul ym Mhenarth ac ar yr ail adeilad yn Llanilltud Fawr. Bydd y ddau yn weithredol yn fuan iawn.

Mae cynnydd llawer cyflymach wedi troi'r hen Ganolfan Ieuenctid yn Llanilltud Fawr yn CF61, cyfleuster cymunedol bywiog a werthfawrogir yn fawr, sy'n agor pan fo'n bosibl ac yn dod yn esiampl o sut i redeg canolfan yn ddiogel yn ystod COVID-19.

I gloi, mae'n fraint ac yn anrhydedd bod yn Gadeirydd ar sefydliad mor effeithiol a hoffwn ddiolch i'r holl Ymddiriedolwyr, Staff, Gwirfoddolwyr, Aelodau a Phartneriaid Allanol sy'n gwneud hyn i gyd yn bosibl.

GRAHAM BENFIELD OBE, CADEIRYDD



# Y PRIF WEITHREDWR

Am flwyddyn anodd y mae 2020-2021 wedi bod i bob un ohonom, ond mae'n parhau i fod yn bleser ac yn fraint gweithio gyda thîm Staff ac Ymddiriedolwyr sydd mor alluog a gofalgar ac yn ysbrydoliaeth, gan fynd y tu hwnt i'w dyletswyddau yn ystod y cyfnod anodd hwn, i sicrhau bod ein gwasanaethau wedi bod yno i gynorthwyo unigolion a chymunedau drwy gydol y pandemig hwn.

Rwy'n eich gwahodd, wrth ddarllen yr Adroddiad Effaith hwn ar gyfer 2020-2021, i fyfyrio ar y cyfraniad enfawr y mae'r sefydliad bach lleol hwn wedi ei wneud er gwaethaf yr amgylchedd anodd sydd wedi wynebu pob un ohonom.

Mae pob un ohonom wedi dysgu y gallwn weithredu mewn ffyrdd yr oeddem yn meddwl cynt oedd yn rhy anodd neu'n amhosibl hyd yn oed. Mae gweithredu a chyfathrebu o bell ac yn ddigidol wedi dod yn arferol bron dros nos, cyflawniad a fyddai wedi cymryd llawer iawn o amser, ymdrech a chryn dipyn o amharodrwydd i bob un ohonom o dan amgylchiadau eraill ac mewn gwahanol gyfnod – ond rydym i gyd wedi ei gyflawni. Rydym wedi llwyddo i barhau i ddarparu gwasanaethau, do mae'r fformat a'r ddarpariaeth wedi newid, ond mae gwasanaeth o ansawdd y mae wir ei angen wedi parhau a chyflwynwyd gwasanaethau newydd.

Mae'r ffrwydrad llawn ysbrydoliaeth hwn o weithgarwch gwirfoddol lleol i gynorthwyo ein cymdogion a'n cymunedau wedi sicrhau cydlyniad cymdeithasol a oedd yn ymddangos y tu hwnt i'r cyrraedd yn flaenorol. Rwy'n hyderus y bydd y pandemig, mewn gwirionedd, yn galluogi cymunedau i ddod i'r amlwg sy'n llawer cryfach, ar ôl adeiladu rhwydweithiau newydd o gymorth.

Rydym i gyd wedi gweld y bylchau mewn gwasanaethau statudol sydd wedi dod yn amlwg wrth i'r pandemig ddatblygu, ac i bob un ohonom mae partneriaethau newydd a ffyrdd o gydweithio ar draws ffiniau sefydliadol a sectorol wedi dod yn reidrwydd ond hefyd yn flaenoriaeth, i ddiwallu anghenion ein cymunedau.

Ac ar gyfer y dyfodol mae'n rhaid i ni edrych gyda hyder i COVID-19 fod dan reolaeth ac rwy'n wir obeithio ein bod ni a'n partneriaid wedi dysgu bod y Trydydd Sector yn cyflawni ac ar gael i'w cynorthwyo pan fydd pethau'n anodd; mae rhwystrau wedi diflannu - yn barhaol rydym yn gobeithio - gan greu lle ar gyfer ffordd well a mwy cyfiawn o fyw a gweithio i bawb.

RACHEL CONNOR, PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

# GWASANAETHAU GWIRFODDOLI

Mae gwasanaeth gwirfoddoli Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) yn cynnig adnodd un stop ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar bob agwedd ar wirfoddoli i wirfoddolwyr a sefydliadau recriwtio. Ein nod yw cysylltu sgiliau, profiadau, amser a brwdfrydedd pobl leol sy'n dymuno gwirfoddoli i sefydliadau sy'n ceisio datblygu eu gwasanaethau. Darperir y gwasanaeth hwn trwy nifer o leoliadau ar draws Bro Morgannwg, yn ogystal ag yn ein swyddfa yn y Barri, i sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd y rhai ar draws y sir. Mae ein canolfan newydd yn Llanilltud Fawr, CF61, wedi rhoi cyfleoedd i GVS ddatblygu ein gwaith allgymorth gwirfoddoli ymhellach.

Mae gwasanaeth gwirfoddoli GVS yn cynnig amrywiaeth enfawr o swyddogaethau gwirfoddoli yn dibynnu ar ddiddordebau a sgiliau'r gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr yn darparu cymorth hynod werthfawr yng ngwaith sefydliadau Trydydd Sector a thu hwnt, sy'n aml yn gwella'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan staff cyflogedig.

Cafodd uchafbwyntiau ein gwaith Datblygu Gwirfoddoli yn 2020/21 eu heffeithio yn fawr gan bandemig COVID-19 a chyfyngiadau symud dilynol. Ymatebodd ein Tîm Gwirfoddoli yn ardderchog i bandemig COVID-19 trwy baru darpar wirfoddolwyr yn effeithiol â sefydliadau a oedd angen cymorth i gefnogi cymunedau ym Mro Morgannwg.

Dangosodd ymholiadau ynghylch gwirfoddoli ym Mro Morgannwg rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 gynnydd i ymholiadau o 1067% - o 84 yn yr un cyfnod yn 2019 i 981 yn 2020. Dangosodd nifer y bobl y gwnaeth GVS ganfod cyfle i wirfoddoli yn y gymuned iddynt wedyn gynnydd i leoliadau o 1178% - o 69 yn yr un cyfnod yn 2019 i 882 yn 2020.

Fe wnaeth GVS ymdrin â 1,306 ymholiadau gan wirfoddolwyr yn 2020/21 o'i gymharu â 213 yn 2019/20. Llwyddodd GVS i leoli 1,100 o wirfoddolwyr yn 2020/21 o'i gymharu â 160 o wirfoddolwyr yn 2019/20.

Ar gyfer Wythnos Gwirfoddolwyr 2020, darparwyd yr holl weithgareddau ar-lein oherwydd cyfyngiadau symud COVID-19. Trwy gyfryngau cymdeithasol ac adnoddau ar-lein eraill, cyrhaeddodd GVS 14,222 o bobl ledled Bro Morgannwg ac ymgysylltodd â 4,172 o bobl.

Fe wnaeth ein Grant Dan Arweiniad Pobl Ifanc helpu sefydliadau lleol i ddarparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc ym Mro Morgannwg. Roeddem yn falch o gyflwyno grantiau i dri phrosiect ieuenctid llwyddiannus, gan ddosbarthu cyfanswm o £2,549.

Mae ein Gwasanaeth Gwirfoddoli wedi llwyddo ac mae'n rhaid diolch yn fawr i'n tîm staff gwirfoddoli a'r gwirfoddolwyr sy'n cynorthwyo ein gwaith ardderchog, y cwbl yn ystod cyfnod anodd iawn yn 2020 - 2021.

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM




## EIN HYSTADEGAU

**1,306**

o ymholiadau gwirfoddoli wedi'u derbyn yn ystod 2020/21

**1,100**

o bobl wedi'u lleoli mewn swyddi gwirfoddoli yn ystod 2020/21

**981**

o ymholiadau gwirfoddoli wedi'u derbyn rhwng Mawrth a Mehefin 2020

## EIN HADBORTH

Roedd Barry Beavers angen diweddaru a chreu cyfleoedd gwirfoddoli newydd yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Trefnodd Janine gyfarfodydd Zoom gyda ni i ddiwallu anghenion penodol y clwb ar gyfer cyfleoedd newydd. Fe wnaeth Janine hefyd helpu i ddrafftio ffurflen gais ymaelodi a gwirfoddoli newydd i fodloni gofynion y clwb, a bodloni deddfwriaeth GDPR newydd. Llwyddwyd i fabwysiadu'r ffurflen newydd yn effeithiol, ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roeddem yn ddiolchgar iawn am y cymorth arbenigol hwn.
**Chris Economides, Barry Beavers**

Mae wedi bod yn fraint eich cael chi yno i helpu a chynghori. Rydych chi a'r lleill yn GVS yn weithwyr proffesiynol perffaith ac yn cynnig gwasanaeth gwych i wirfoddolwyr ac i sefydliadau Trydydd Sector. Rydych chi'n mynd ymhellach na'r disgwyl a does dim yn ormod o drafferth mewn gwirionedd. Rydych chi hefyd yn wrandäwr da iawn, rwy'n ymwybodol fy mod i wedi eich plagio nifer o weithiau! Felly diolch eto am eich cymorth anhygoel ac rwy'n dymuno pob llwyddiant i chi o ran goresgyn yer heriau presennol a thu hwnt.
**Sandra Cooper, Rhoose Community Library**

# GWASANAETHAU IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLESIANT

Mae hon wedi bod yn flwyddyn brysur arall o ran iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mewn ymateb i COVID-19, mae GVS wedi wynebu heriau newydd digynsail.

Mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) yn cyflogi Swyddog Cyswllt Trydydd Sector (CLO), yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg. Nod y CLO oedd ymdrin ag atgyfeiriadau cymhleth a helpu pobl agored i niwed gael mynediad at gymorth cymunedol a chadw yn annibynnol. Roedd y CLO yn rhan o dîm GVS a oedd yn ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd ar ddechrau pendemig COVID-19.

Gweithiodd GVS mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg i ddosbarthu cyfarpar diogelu personol i grwpiau cymunedol lleol a oedd yn cael trafferth yn cael cyflenwadau.

Rheolwyd pedwar cynllun ariannu gan GVS: tCronfa Ymyriadau Ataliol Pobl Hŷn y Fro, Cronfa Gofal Integredig Caerdydd a’r Fro (Rownd 1 a Rownd 2) a Chynllun Grant Trydydd Sector Elusen Iechyd Caerdydd a’r Fro.

Darparodd GVS ymatebion i’r ymgynghoriadau canlynol hefyd, gan gynnig safbwynt Trydydd Sector: Ein Berllan Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru ar swyddogaeth ac effaith y Trydydd Sector, Adborth ar Gynllun Gaeaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, adborth ar gynnydd o dan Fil Cenedlaethau’r Dyfodol, ymchwil Cydffederasiwn GIG Cymru ar effaith COVID-19.

Mae GVS wedi gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i lunio meini prawf i staff Trydydd Sector rheng flaen gael mynediad cynnar at y brechlyn COVID-19. Roedd y diffiniad yn bodloni’r meini prawf rheng flaen cenedlaethol.

Trafododd GVS â sefydliadau Trydydd Sector ar draws Bro Morgannwg a Chaerdydd (ar y cyd â C3SC) i’w helpu i nodi cohortau blaenoriaeth o staff a gwirfoddolwyr. Dywedodd GVS wedyn wrth y rhai a nodwyd i drefnu eu hapwyntiau brechu ac roeddent wrth law i helpu gydag ymholiadau unrhyw sefydliadau.

Mae ein haelodaeth o grwpiau strategol a chynllunio yn galluogi GVS i hyrwyddo safbwynt Trydydd Sector. Mae’r grwpiau hyn yn cynnwys Grŵp Cyfeirio Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, Bwyd y Fro a Ffrwd Waith Gofalwyr Caerdydd a’r Fro.

Oherwydd y cyfyngiadau symud, bu’n rhaid i’r Rhwydwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol addasu gan esblygu’r cyfarfodydd wyneb yn wyneb i gyfarfodydd ar-lein. Cynhaliwyd cyfarfodydd wedi’u targedu yn canolbwyntio ar bobl hŷn a chyllid. Mae gennym 441 o aelodau rhwydwaith sydd hefyd yn derbyn ein e-fwletin Iechyd wythnosol. Mae’r e-fwletin wedi bod yn hanfodol yn ystod y pandemig ac yn parhau i gyfleu gwybodaeth iechyd bwysig mewn fformat effeithlon ac effeithiol i aelod-sefydliadau a Phartneriaid GVS, sy’n cynnwys Staff Iechyd Cyhoeddus ac Awdurdod Lleol.

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**£236,802.48**

wedi'i ddyrannu o'r pedwar cynllun ariannu a reolir gan GVS

**441**

o aelodau o'r Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant

**3,500**

neu fwy o staff rheng flaen y Trydydd Sector yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg wedi cael cynnig y brechlyn

## EIN HADBORTH

Mae wedi bod mor galonogol gweld GVS a sefydliadau Trydydd Sector eraill yn ymateb i her y pandemig a gwneud popeth yn eu gallu i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach.

Diolch o galon am y diweddariad hwn a'ch holl waith caled yn cael cydnabyddiaeth i'n staff rheng flaen fel gweithwyr allweddol ar gyfer y brechlyn. Diolch yn fawr.

Adborth ar e-fwletin Iechyd GVS - Diolch, yn ôl yr arfer. Llawn newyddion diddorol a chalonogol yn ôl yr arfer. Mae cymaint yn digwydd!

# ARIANNU

# GWASANAETHAU GWYBODAETH

Mae grwpiau Trydydd Sector ac elusennau wedi wynebu cyfres ddigynsail o heriau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid leiaf yn eu plith fu dod o hyd i gyllid i sicrhau nad yw'r gwaith hanfodol a wneir gan y Sector yn cael ei golli, hyd yn oed os nad yw'r gwasanaethau hynny wedi bod yn hygyrch yn uniongyrchol o ganlyniad i gyfyngiadau symud.

Ar nodyn cadarnhaol, daeth yr ariannwyr at ei gilydd yn eithriadol o effeithiol i ddarparu amrywiaeth o gyllid i gynorthwyo'r Trydydd Sector. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi gweithio'n galed i hyrwyddo'r pentwr o gymorth ariannu sydd wedi bod ar gael i'n haelodau.


Rydym wedi llwyddo i ddatblygu ein gwasanaethau yn ystod y cyfyngiadau symud i groesawu arferion digidol. Mae hyn wedi caniatáu i ni barhau ein cymorth mewn ffyrdd newydd ac arloesol, gan gynnwys datblygu rhestr bostio cyllid wedi'i theilwra newydd, hyfforddiant digidol, a datblygiad cysylltiedig cyfeiriadur cyllid ar -lein newydd o'r enw www.cyllido.cymru

Rydym wedi cynorthwyo'r Trydydd Sector ym Mro Morgannwg i dynnu dros £720,000 o gyllid i lawr. Rydym hefyd wedi cynorthwyo sefydliadau Trydydd Sector lleol i ymgeisio am dros £291,000 o gyllid wedi'i hwyluso gan GVS, ar ran partneriaid allweddol a chyrff ariannu. Hwyluswyd nifer o sesiynau 'Cyfarfod yr Ariannwr' gennym gan roi mynediad i'n haelodau at rai o ariannwyr mwyaf Cymru. Datblygwyd sesiwn hyfforddi gennym gyda'r nod o wella ansawdd ceisiadau am gyllid o Fro Morgannwg. Rydym wedi datblygu rhestr e-bostio newydd sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth fwy trylwyr am gyfleoedd ariannu posibl i'r Trydydd Sector ym Mro Morgannwg. Mae gennym 149 o danysgrifwyr eisoes.



> "Hoffem ddiolch i Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg am ddyfarnu £4,746 i ni weddnewid ardal awyr agored Danybryn i'w gwneud yn fwy hygyrch a'n caniatáu i dyfu bwyd ein hunain. Diolch
>
> Leonard Cheshire yng Nghymru"

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**£720,000**

o gyllid GVS wedi cynorthwyo'r Trydydd Sector ym Mro Morgannwg

**£291,000**

o gyllid wedi'i dderbyn gan sefydliadau Trydydd Sector lleol trwy gynlluniau grant a reolir gan GVS

**149**

o bobl wedi tanysgrifio i'n rhestr bostio cyllid wedi'i theilwra a ddatblygwyd yn ddiweddar sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'n haelodau am y cyllid diweddaraf

## EIN HADBORTH

Mae GVS yn gymorth sylfaenol i Barry Beavers, mae'r cyngor arbenigol, sydd wrth law bob amser, yn galluogi sefydliadau Trydydd Sector i ddatblygu mewn ffordd strwythuredig.
**Chris Economides, Barry Beavers**

Roeddwn i'n meddwl ei fod yn wych. Roedd yn llawn gwybodaeth ac eto roedd wedi'i strwythuro yn dda iawn fel nad oedd yr wybodaeth yn mynd yn drech na fi. Fe wnaethoch chi gyflwyno'r wybodaeth yn dda iawn. Byddaf yn argymell hwn i eraill, os bydd yn codi.
**Holly Ireland, RBI Baseball Softball**

Roeddwn i'n meddwl bod y cyflwyniad wedi cael ei wneud yn dda iawn ac roedd yn ddefnyddiol iawn i mi. **Gareth Andrews, Clwb Criced Vale**

# GWASANAETHAU LLYWODRAETHU

Mae'r cyfyngiadau symud a gyflwynwyd mewn ymateb i COVID-19 wedi rhoi lefel ddigynsail o bwysau ar y Trydydd Sector. Cafodd llawer o grwpiau a sefydliadau eu hunain yn methu â gweithredu o gwbl, tra aeth pethau yn drech nag eraill wrth i alw am eu gwasanaethau gynyddu.

Bu 'llywodraethu da', y mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) wedi ymdrechu i'w hyrwyddo yr holl ffordd drwy'r cyfnod anodd hwn, yn sail i lywio'r cyfnod cythryblus hwn yn llwyddiannus.

Rydym wedi cynorthwyo ein haelodau gydag amrywiaeth enfawr o ymholiadau llywodraethu, gan gynnwys:

- Sut i gadw'n gyfansoddiadol wrth gynnal cyfarfodydd tra'n cadw pellter cymdeithasol
- Cynorthwyo sefydliad grwpiau, elusennau a mentrau cymdeithasol newydd a sefydlwyd mewn ymateb uniongyrchol i'r cyfyngiadau symud
- Ailstrwythuro dogfennau llywodraethu i adlewyrchu arferion gwaith newydd
- A llawer mwy

Hefyd, rydym wedi datblygu sesiwn hyfforddi fanwl ar gyfer ymddiriedolwyr newydd a ddarperir o bell gan ddefnyddio Zoom. Roedd hon yn trafod egwyddorion llywodraethu da yn ogystal â chanllawiau ar swyddogaethau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr.

Cymerwyd camau cyflym gennym i gefnogi a hyrwyddo'r grwpiau Facebook a ddaeth i'r amlwg ar ddechrau'r argyfwng, a roddodd gyngor mor werthfawr i gymunedau lleol ym Mro Morgannwg, yn enwedig i bobl agored i niwed.

Cawsom 157 o ymholiadau llywodraethu ar wahân a atebwyd gan Dîm Llywodraethu GVS. Cynorthwywyd 115 o wahanol sefydliadau gennym gyda chyngor yn ystod y cyfyngiadau symud.

Datblygwyd sesiwn hyfforddi ar-lein gennym gyda'r nod o gynorthwyo ymddiriedolwyr newydd o'r enw "Bod yn Ymddiriedolwr - Yr Hanfodion". Llenwyd pob un o'r 10 lle a rhoddwyd adborth arbennig o gadarnhaol gan y cynrychiolwyr.

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**157**

o ymholiadau llywodraethu ar wahân wedi'u hateb gan y Tîm

**115**

o wahanol sefydliadau wedi'u cynorthwyo gyda chyngor yn ystod y cyfyngiadau symud

**10**

o gynrychiolwyr wedi elwa o'n hyfforddiant a ddatblygwyd o'r newydd ar gyfer ymddiriedolwyr newydd

## EIN HADBORTH

Cyflwynodd yr hyfforddwr grynodeb eglur o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr a thynnodd sylw at rai o'r peryglon ymarferol hefyd. Rhoddodd gyflwyniad gwerthfawr i fod yn ymddiriedolwr. Ers cael hyfforddiant, rwyf i wedi cytuno i fod yn ymddiriedolwr cofrestredig.
**Sue Sullivan, Llanilltud Fawr in Flower**

Awgrymwyd bod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol i ni gyntaf rai blynyddoedd yn ôl, ond am nifer o resymau nid oedd yn bosibl ei brosesu yn llawn tan ddiwedd 2020, pan gynhaliwyd trafodaethau pellach a phenderfynwyd bwrw ymlaen â'r prosiect. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, nid oedd yn bosibl cynnal cyfarfod ffisegol, felly cynhaliwyd cyfarfodydd Zoom a thrafodwyd yr holl agweddau. Ar ôl gwneud hyn, roedd yn rhaid i ni gwblhau'r holl ddogfennau angenrheidiol, na fyddai wedi bod yn bosibl heb gymorth GVS.
**Ivor Davies, CAVRA**

Mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg wedi ein cynorthwyo gydag adolygu dogfennau, mynychu cyfarfodydd, a chynnig cymorth a chyfarwyddyd cyffredinol drwy gydol y broses. Roeddem yn hapus iawn gyda'r cymorth i ni ei dderbyn.
**Andrew Kelland, Tool Aid Cymru**

# GWASANAETHAU GWYBODAETH AC AELODAETH

**Mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) yn cynnig Aelodaeth Lawn a Chyswllt sy'n gwasanaethu sefydliadau gwirfoddol ac elusennau lleol yn ogystal a sefydliadau partner sy'n dymuno rhyngweithio â'r Trydydd Sector.**

**Mae ein haelodaeth wedi mynd o nerth i nerth wrth i fwy o grwpiau ymgysylltu â'n gwasanaethau ac elwa ohonynt. Mae gan GVS aelodaeth o fwy na 758 o sefydliadau.**

**Mae cylchgrawn e-Vista a Newyddion Cyllid Cynaliadwy GVS yn parhau i ddarparu newyddion perthnasol am y Trydydd Sector, gan helpu i gynorthwyo sefydliadau gyda gwybodaeth a chymorth pwysig. Cynhyrchir y cyhoeddiadau hyn yn fewnol dair gwaith y flwyddyn ac fe'u dosberthir i fwy na 900 o grwpiau ac unigolion.**

**Mae GVS yn darparu gwasanaeth gwybodaeth eang sy'n helpu i alluogi cyfathrebu rhwng ein haelodau, cyrff statudol a'r cyhoedd. Mae ein gwasanaeth gwybodaeth yn rhan o adnodd cyfunol cyffredinol bellach sydd wedi'i leoli ar wefan CGGC ynghyd â'r holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru. Lawrlwythwyd y taflenni gwybodaeth cyffredinol dros 630,000 o weithiau.**

**Ymwelwyd â'n gwefan 26,955 o weithiau yn ystod y flwyddyn. Mae GVS wedi derbyn dros 645 o ymholiadau, gan gynorthwyo dros 176 o sefydliadau. Cyhoeddodd GVS nifer ryfeddol o 78 o ddatganiadau i'r wasg yn ystod y flwyddyn.**

**Mae gwasanaeth e-fwletin GVS yn dosbarthu gwybodaeth berthnasol reolaidd mewn fformat hawdd ei ddarllen gan sicrhau y darperir ar gyfer natur amrywiol aelod sefydliadau, gan helpu i gryfhau'r Sector trwy gyfathrebu a chyfarwyddyd cadarn. 1,197 yw cyfanswm y bobl a sefydliadau sy'n derbyn ein e-fwletinau.**

**Mae cyfrifon Facebook a Twitter GVS yn parhau i ategu'r dulliau cyfathrebu eraill. Mae dilynwyr Facebook GVS wedi cynyddu o 1,179 i 1,284 ac mae ei ddilynwyr Twitter wedi cynyddu o 2,582 i 2,599 yn y flwyddyn ddiwethaf.**

> **"Hoffem ddiolch i GVS am ei gefnogaeth i Gôr Meibion y Barri a grwpiau eraill yn y trydydd sector. Mae'r staff yn wybodus, yn broffesiynol ac yn hawdd mynd atyn nhw - does dim yn ormod o drafferth. Mae GVS yn adnodd hynod werthfawr ac mae'r Fro yn ffodus iawn o fod â sefydliad mor effeithiol yn helpu grwpiau gwirfoddol yn ein cymunedau lleol."**
>
> **Dorothy Connell, Côr Meibion y Barri**

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**630,000**

o lawrlwythiadau o'n taflen wybodaeth o'n gwasanaeth cyffredinol newydd ar y cyd â Chynghorau Gwirfoddol Sirol a CGGC yng Nghymru

**26,955**

o weithiau yr ymwelwyd â'n gwefan

**758**

o sefydliadau yn aelodau o GVS

## EIN HADBORTH

**Gwasanaeth e-Fwletin GVS**
Diolch yn ôl yr arfer am wybodaeth mor gynorthwyol sydd wedi'i ymchwilio mor dda. Diddorol iawn.
**Evan Davies**

**Gwasanaeth e-Fwletin GVS**
Gwybodaeth ddefnyddiol bob amser a'r gobaith yw y bydd yn helpu ein gwaith a'r bobl yr ydym yn gweithio â nhw ym Mro Morgannwg.
**Alex Bowen, Breathe Creative**

**Cylchgrawn e-Vista a Newyddion Cyllid Cynaliadwy GVS**
Dal i fwynhau cael y newyddion gan fod GVS yn sefydliad cynorthwyol iawn ac rydym yn cael llawer o wybodaeth gennych chi.
**Fay Harding-Lewis,**
**Cyngor Sgowtiaid Ardal Caerdydd a'r Fro**

# GWASANAETHAU YMARFEROL, ARGRAFFU A DYLUNIO

Mae gwasanaethau argraffu a dylunio Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) wedi bod yn rhaff achub gwirioneddol i aelod sefydliadau gwirfoddol ac elusennol gan eu bod yn gwbl unigryw o ran diwallu anghenion y Sector Gwirfoddol.

Mae'r gwasanaethau effeithlon a hynod broffesiynol yn cynnig cymorth hynod werthfawr i sefydliadau nad oes ganddynt fynediad at offer argraffu o'r radd flaenaf neu'r sgiliau priodol i ddylunio deunydd cyhoeddusrwydd.

Mae manteision y gwasanaeth hwn yn mynd y tu hwnt i wasanaeth dylunio ac argraffu yn unig, wrth i aelod sefydliadau dderbyn cymorth a chyngor wedi'i deilwra am ddim, gan roi cyhoeddusrwydd effeithiol iddynt tra'n elwa o brisiau heb eu hail.

Mae'r ystod lawn o wasanaethau ymarferol wedi'u teilwra yn cynnwys:

- Gwasanaeth argraffu rhad ac arbennig o broffesiynol
- Gwasanaeth dylunio sy'n broffesiynol, yn effeithlon ac yn deall yn llawn anghenion marchnata grwpiau cymunedol ac elusennau. Gall dyluniadau gynnwys taflenni, posteri, cardiau busnes, adroddiadau, cylchlythyrau, slipiau cyfarch, papur a phennawd, llyfrynnau, baneri PVC a banerityn nu i fyny
- Gwasanaeth benthyg offer am ddim sy'n cynnwys eitemau fel byrddau arddangos, taflunydd digidol a system sain

Mae'r gwasanaethau llungopïo, dylunio gorffen yn ddibynadwy ac yn effeithlon a dibynnir yn fawr arnynt. Fodd bynnag, gohiriwyd y gwasanaeth hwn oherwydd pandemig COVID-19. Tuag at ddiwedd y cyfnod y adrodd, defnyddiwyd y gwasanaeth hwn 28 o weithiau.

Cwblhawyd 20 o swyddi llungopïo ac argraffu ac 8 o swyddi dylunio yn ystod y flwyddyn. Roedd y swyddi dylunio yn cynnwys:

- Dylunio logo
- Cynhyrchu cyflwyniad
- Dylunio baner PVC ar gyfer dathliad pen-blwydd
- Cynhyrchu gwahoddiadau
- Dylunio cylchgrawn
- Dylunio cardiau Nadolig a phen-blwydd

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**28**
o weithiau y defnyddiwyd ein gwasanaethau ymarferol yn ystod 2020 - 2021

**20**
o swyddi llungopïo ac argraffu

**8**
o swyddi dylunio

## EIN HADBORTH

**Argraffu cylchlythyrau yn ystod COVID-19**
Diolch yn fawr iawn am helpu i gyhoeddi cylchlythyrau Naturiolwyr Caerdydd o dan yr amgylchiadau anodd hyn. Rwy'n siŵr y bydd ein haelodau yn gwerthfawrogi eu cael nhw drwy'r post yn fawr.
**Stephen Nottingham, Cymdeithas Naturiolwyr Caerdydd**

**Dylunio cylchgrawn ar gyfer Barry Beavers**
Roeddwn i'n casglu Cylchlythyrau BB ac rwyf i wrth fy modd â nhw ac felly hefyd y tîm. Diolch o galon eto am eich gwaith caled, eich proffesiynoldeb a'ch arbenigedd. Hwyl am y tro. **Mai Marley, Barry Beavers**

**Creu logo ar gyfer dathliad 40fed pen-blwydd Barry Beavers**
Mae hwnna'n syniad gwych Mark, mae'n edrych yn grêt. Byddai'n edrych yn ardderchog fel pennawd ar gyfer Papurau ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Syniad ardderchog. Rydych chi'n ffynhonnell wych o greadigrwydd. Diolch o galon.
**Chris Economides, Barry Beavers**

# PARTNERIAETHAU A GWEITHIO AR Y CYD

Ystyrir bod y Trydydd Sector yn bartner pwysig o ran cynorthwyo gwaith cyrff statudol mewn amrywiaeth eang o feysydd, ac mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a gwella gwasanaethau lleol.

Mae GVS yn parhau i hwyluso cynrychiolaeth y Trydydd Sector mewn cyd-gynllunio ffurfiol yn unol â'r protocol a gytunwyd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector, drwy'r Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, neu drwy'r aelodaeth GVS lawn pan fo'n briodol.

Mae GVS wedi parhau i gynrychioli'r Sector ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac is-grwpiau partneriaeth strategol a phriodol eraill, gan sicrhau bod llais y Sector a'r gymuned ehangach yn cael ei glywed ar bob lefel. Hefyd, mae GVS wedi chwarae rhan fawr iawn mewn ymgynghoriadau a thrafodaethau gyda darparwyr gwasanaeth ynghylch cyfranogiad y Trydydd Sector yn y gwaith parhaus o lunio a darparu gwasanaethau'r dyfodol. Mae GVS a sefydliadau Trydydd Sector eraill wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod cymunedau yn cael eu cynnwys ar bob cam o'r daith.

Yn ystod y flwyddyn, mae GVS wedi cymryd rhan mewn:

- 6 Rhwydwaith Cenedlaethol
- 19 Partneriaeth Strategol
- 33 Cyd-weithgor



“Llongyfarchiadau i Rachel a'r tîm yn GVS am flwyddyn ardderchog o waith. Cymorth gwych i'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu a gwaith partneriaeth rhagorol - da iawn yn wir!

Charles Janczewski, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro”

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

Cymerodd GVS ran mewn:

**6**

rhwydwaith cenedlaethol

**19**

partneriaeth strategol

**33**

cyd-weithgor

## EIN HADBORTH

**Gwaith partneriaeth gyda Cyngor Bro Morgannwg**
Ar ddechrau'r pandemig, cysylltodd cydweithwyr o GVS â'r Cyngor gyda manylion bod tîm GVS wedi llunio rhestr o sefydliadau cymunedol a Thrydydd Sector a oedd yn barod i gynorthwyo trigolion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Trwy sgyrsiau cyflym, yn canolbwyntio ar lesiant pawb ym Mro Morgannwg, rhoddwyd cynllun Arwyr y Fro ar waith. Mae Arwyr y Fro yn cynnig cronfa ddata ar-lein o wybodaeth i drigolion, mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli a chyfle i grwpiau cymunedol a sefydliadau Trydydd Sector hysbysebu eu gwasanaethau. Mae wedi bod yn enghraifft ragorol o waith partneriaeth yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau o ansawdd.
**Tom Bowring, Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes, Cyngor Bro Morgannwg**

# GWASANAETHAU

# HYFFORDDI A SESIYNAU BRIFFIO

Yn ystod y flwyddyn, er gwaethaf y pandemig a symudiad i ddarparu hyfforddiant ar-lein, darparwyd 14 o ddigwyddiadau hyfforddiant grŵp, y cwbl â'r nod o gynyddu capasiti sefydliadau lleol. Roedd y cyfleoedd hyfforddi a gynigiwyd yn cynnwys:

- Sut i Gynnal Rhith-gyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Ail-agor eich Cyfleuster Cymunedol
- Sut i gynnal Rhith-gyfarfod Bwrdd
- Bod yn Ymddiriedolwr
- Recriwtio, Dethol a Rheoli Gwirfoddolwyr
- Ysgrifennu Cais Llwyddiannus am Gyllid
- Hanfodion Zoom

Daeth cyfanswm o 206 o gynrychiolwyr i'r cyrsiau hyfforddi a dywedodd 100% bod yr hyfforddiant naill ai'n dda neu'n rhagorol.

Mae GVS yn darparu cyrsiau hyffoorddiant TG a chyfryngau cymdeithasol un i un. Cynhaliodd GVS dair sesiwn hyfforddi a dywedd pawb a oedd yn bresennol bod y cyrsiau yn dda neu'n rhagorol.

### Adborth ar Hyfforddiant Bod yn Ymddiriedolwr

"Roeddwn i'n bresennol yn un o'ch sesiynau hyfforddi heddiw, 'Bod yn Ymddiriedolwr' a ddarparwyd gan Kris Rees. Roedd yn wych - rwyf i wedi ei argymell ac rwy'n edrych ymlaen at ymuno â rhagor o sesiynau. Chwarae teg i Kris, llwyddodd i anfon templed polisi diogelu data cynhwysfawr ymlaen hefyd. Susan Sullivan, Llanilltyd Fawr in Flower"

### Adborth a Hyfforddiant Hanfodion Zoom

"Roedd hon yn sesiwn wedi'i strwythuro a'i darparu yn dda. Roedd yr hyfforddwr yn amlwg yn wybodus ond hefyd yn ystyriol o anghenion y cynrychiolwyr nad yw bob amser yn hawdd gyda grŵp gallu cymysg. Roedd hefyd yn amgylchedd digyffro a chyfeillgar ag ymgysylltiad da â chynrychiolwyr a chyfle i ymarfer. Gwrth rhagorol am arian. Rebecca Mollart, erosh"

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**14**

o ddigwyddiadau hyfforddi grŵp wedi'u darparu

**206**

o gynrychiolwyr yn bresennol yn y sesiynau

**100%**

o'r cynrychiolwyr yn dweud bod yr hyfforddiant naill ai'n dda neu'n rhagorol

## EIN HADBORTH

**Sut i Drefnu Rhith-gyfarfod Cyffredinol Blynyddol**
Roedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ynys Echni yn llwyddiant ysgubol ac roedd hyn yn rhannol oherwydd y cyngor i ni ei gael yn sesiwn hyfforddi Clive Curtis. Fe wnaeth yn sicr ein galluogi i fod yn fwy proffesiynol o ran ei reoli ar-lein. A fyddech gystal â diolch iddo a rhannu ein hadborth?. **Bridget Box, Ysgrifennydd, Cymdeithas Ynys Echni**

**Getting Fit for Funding**
Roeddwn i'n meddwl bod y cwrs yn wych. Roedd yn llawn gwybodaeth ac eto roedd wedi'i strwythuro yn dda iawn felly ni aeth yr wybodaeth yn drech na fi. Fe wnaethoch chi gyflwyno'r wybodaeth yn dda iawn - mae'n wir mai dim ond dau ohonom ni oedd yno, ond rwy'n credu y byddai eich arddull wedi bod yr un mor hygyrch pe bai mwy.
**RBI Wales**

**Getting Fit for Funding**
Roeddwn i'n meddwl y darparwyd y cyflwyniad yn dda iawn ac roedd yn ddefnyddiol iawn i mi. Soniais am y strategaeth codi arian yn ein cyfarfod Bwrdd a byddaf yn gweithio ar honno yn rhan o'n cynllun parhaus i brynu ein tir a phrofi ymarferoldeb cyfleuster dan do.
**Gareth Andrews, Clwb Criced Vale**

# YMATEB COVID-19 GVS

Roedd gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) ran bwysig i'w chwarae i ymateb i COVID-19, ac mae hynny'n parhau. Mae GVS yn ddarparwr uniongyrchol o gymorth i unigolion sydd angen cymorth ond hefyd yn gynullydd ac yn ffwlcrwm i sefydliadau Trydydd Sector eraill yn yr ardal. Mae GVS yn helpu i gysylltu pobl â sefydliadau Trydydd Sector a sefydliadau Trydydd Sector â'r Sector Cyhoeddus ehangach.

Trwy gydol pandemig COVID-19, mae GVS wedi:

- Darparu cymorth uniongyrchol i unigolion – mae GVS wedi cynorthwyo pobl gyda mynediad at fwyd a meddyginiaeth ond hefyd wedi cynorthwyo a darparu amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi helpu llesiant emosiynol pobl
- Cynorthwyo 882 o unigolion i wirfoddoli – cynnydd o 1,178% o'i gymharu â 2019 - 2020
- Darparu cymorth i'r Sector ehangach – mae GVS wedi parhau i helpu'r Trydydd Sector ehangach gyda gwirfoddolwyr, gwybodaeth a chyfarwyddyd, cyllid uniongyrchol ac wedi cynorthwyo gyda mynediad at botiau ehangach o gyllid
- Cydgysylltu cymorth – mae GVS wedi helpu i gydgysylltu cymorth i unigolion, ond mae hefyd wedi gweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg gan sicrhau ymateb cydgysylltiedig ar draws Bro Morgannwg gan gynnwys bod yn rhan o gyfarfodydd Awdurdod Lleol allweddol
- Nodi a chysylltu â'r holl grwpiau cymorth COVID-19 ym Mro Morgannwg a sefydlwyd ar gyfryngau cymdeithasol mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws
- Cadw mewn cysylltiad â phob cyngor cymuned i gofnodi mesurau cymorth sydd ar gael ym mhob rhan o Fro Morgannwg
- Llunio a diweddaru cyfeiriadur o wasanaethau cymorth COVID-19 sydd ar gael ym Mro Morgannwg
- Darparu cymorth i unigolion iau na 65 oed sy'n chwilio am wybodaeth am wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal
- Hyrwyddo cynigion Trydydd Sector o gymorth gan sicrhau bod partneriaid statudol yn ymwybodol o'r cynigion hyn
- Rheoli saith cynllun grant gyda chyllid gan Gyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru, Comic Relief, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac Elusennau'r GIG Gyda'i Gilydd a oedd yn gyfanswm o £291,000. Galluogodd hyn i GVS gael cyllid yn gyflym ac yn effeithlon i sefydliadau a grwpiau llawr gwlad lleol a oedd yn darparu gwasanaethau rheng flaen hanfodol i unigolion a chymunedau ym Mro Morgannwg

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



**"Fel ymateb i sefyllfa COVID-19, sefydlodd yr Aelodau Pwyllgor Kay Walters a Sian Apjohn-Williams fanc bwyd.**

**Rydym yn ddiolchgar dros ben i GVS am eu grant o £200. Bydd yr arian hwn yn helopu i stocio eitemau hanfodol yn y Banc Bwyd ac yn helpu i dalu am gynnal a chadw neuadd y pentref dros y chwe mis nesaf. Ar hyn o bryd, nid yw neuadd y pentref yn derbyn unrhyw incwm ond mae angen talu biliau o hyd ac mae angen bodloni safonau iechyd a diogelwch. Diolch GVS. Pwyllgor Neuadd y Pentref Llandŵ"**

## EIN HYSTADEGAU

**7**

o gynlluniau grant wedi'u rheoli gan GVS

**882**

o bobl wedi'u cynorthwyo i wirfoddoli gan GVS yn ystod y pandemig

**£291,000**

wedi'i ddosbarthu mewn cyllid i sefydliadau lleol yn ystod y pandemig

## EIN HADBORTH

Roedd yr elusen yn dderbynnydd diolchgar iawn o grant o £500 a ddyrannwyd gan Comic Relief, a wnaed yn bosibl gyda chymorth hynod werthfawr GVS. Prynodd yr elusen gyfarpar diogelu personol ar gyfer y gymuned leol, a roddwyd i deuluoedd unigol yn y Fro a hefyd i rai ysgolion. NI fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y grant a drefnwyd gan GVS ac rwy'n hynod ddiolchgar.
**Paul Adamson, JAM Fund**

Hoffem ddiolch o galon i GVS am ein cynorthwyo i brynu pum cyfrifiadur llechen newydd trwy eu grantiau bach penodol i COVID-19. Mae'r cyfrifiaduron llechen wedi cael eu benthyca i aelodau'r grŵp bellach fel y gallan nhw ddefnyddio'r rhyngrwyd a'n gwefan, ein sianel YouTube a'n cyfryngau cymdeithasol.
**Kate Whitestone, With Music In Mind**

Diolch i GVS, Jane Hutt a Bridgend Ford am ein feisorau newydd fel y gallwn barhau i ymweld â phobl ifanc yn ddiogel yn lleol a'u cynorthwyo.
**Gofal a Thrwsio yng Nghaerdydd a'r Fro**

# Y PROSIECT GOFALWYR CYSYLLTIEDIG

Dechreuodd y Prosiect Gofalwyr Cysylltiedig ym mis Medi 2017, wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ei reoli gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) a'i ddarparu gan Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth Touch. Rhoddodd gyfleoedd i ofalwyr teuluol am bobl â chyflwr gydol oes a / neu sy'n cyfyngu ar fywyd ddod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd; i rannu problemau a thrafod atebion; i gyfnewid sgiliau a gwybodaeth; i gyfarfod pobl newydd ac i gael ychydig o hwyl ac amser i'w hunain oddi wrth eu swyddogaethau gofalu anodd iawn.

Trwy gyswllt staff, datblygwyd partneriaeth wedyn gyda Pedal Power, yr elusen beicio hygyrch ym Mharc Bute, Caerdydd a oedd yn gallu cynnig sesiynau a hyfforddiant beicio am ddim i fuddiolwyr Gofalwyr Cysylltiedig trwy brosiect arall a ariannwyd gan y Loteri. Fe wnaeth hyn weddnewid y prosiect yn llwyr wrth i'r buddiolwyr ddweud faint roeddent yn mwynhau'r sesiynau a gallu gwneud rhywfaint o ymarfer corff gan ddal i gynorthwyo eu cyd-ofalwyr. O ganlyniad, rhoddwyd mwy o bwyslais ar weithgareddau llesiant, a chyflwynwyd cyfleoedd i gymryd rhan mewn Zumba, tai chi, ioga, teithiau cerdded arfordirol ac ymweliadau â safleoedd treftadaeth. Dosbarthwyd y rhain fel cynulliadau cymdeithasol yn bennaf ac fe'u darparwyd gan y Ffederasiwn Rhieni.

Darparodd Ymddiriedolaeth Touch sesiynau "Time For Me" yn eu canolfan yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Gallai gofalwyr elwa o amrywiaeth o sesiynau tylino'r corff a oedd yn rhoi'r amser iddynt ymlacio yn llwyr, a sesiynau crefft lle gwnaethant greu addurniadau Nadolig, bomiau bath a dalwyr potiau planhigion macramé ac ati. Darparwyd cinio, gan roi amser i ofalwyr sgwrsio a rhannu eu profiadau.

Mae Gofalwyr Cysylltiedig wedi bod yn llwyddiannus iawn a gallaf ddweud yn onest ei fod wir wedi newid bywydau nifer o fuddiolwyr er gwell. Rhoddwyd canolbwynt newydd i lawer. Mae'r prosiect wedi galluogi pobl i gael allan o'u tai, i gyfarfod pobl newydd a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd. Daeth y prosiect hwn i ben ym mis Mawrth 2021.

Crëwyd 34 o rwydweithiau drwy gydol y prosiect – naill ai gan bobl o'r un meddylfryd, neu'r rhai sydd wedi canolbwyntio ar un o'r gweithgareddau e.e. Zumba neu ioga, neu'r rhai sy'n byw mewn ardal ddaearyddol e.e. grŵp Corntown yng ngorllewin Bro Morgannwg.

Dros y tair blynedd, mae 59 o wirfoddolwyr wedi ymgysylltu â'r prosiect ac wedi gwirfoddoli ar 91 achlysur.

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**98%**

o'r rhai a oedd yn bresennol yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn ymdrin â'u swyddogaethau gofalu ar ddiwrnodau digwyddiadau

**300**

o ofalwyr teuluol gydol oes wedi cymryd rhan mewn sesiynau gwybodaeth a chyngor

**435**

o ofalwyr teuluol gydol oes yn dweud eu bod yn teimlo'n well ac o dan lai o straen yn eu sefyllfa ofalu

## EIN HADBORTH

Hyfryd cyfarfod gofalwyr newydd – cafwyd cymorth a chyngor gwych gan ofalwyr eraill. Teimlo wedi ymlacio mwy ac yn barod i wynebu'r byd.

Fel mae bywyd yn teimlo'n anodd ymdopi ag ef …. mae Gofalwyr Cysylltiedig yn ymddangos gyda chymorth, bwyd, hwyl a chwerthin i'n helpu dros rwystr arall. Diolch.

Rwyf i wedi cael sesiwn tylino'r corff anhygoel heddiw. Mae'r staff mor garedig a pharod eu cymwynas ac yn rhoi cymaint o groeso i bawb. Rwyf i bob amser yn mwynhau pan fyddaf yn dod yma. Rwy'n teimlo cymaint gwell a gallaf ymdopi ag unrhyw beth. Diolch yn fawr iawn i chi gyd. X

# Y PROSIECT REBUILD

**Daeth ein prosiect ReBUILD, a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, i gynorthwyo pobl i wirfoddoli ar draws rhan orllewinol Bro Morgannwg i sicrhau llesiant, i ben ym mis Mawrth 2021. Gyda phwyslais ar gymorth cymheiriaid a rhyngweithio ystrylon, cyflwynodd y prosiect bobl i wirfoddoli gan roi'r cymorth sydd ei angen iddynt i lwyddo a gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol.**

**Y Caffi Llesiant oedd elfen hirdymor gyntaf ReBUILD, wedi'i drefnu a'i ddarparu gan y tîm. Bwriadwyd iddo fod yn amgylchedd anffurfiol a oedd yn galluogi'r rhai a oedd yn dod yno i ymlacio, cymdeithasu â phobl eraill o'u cymuned a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefft a llesiant eraill fel sesiynau blas ar ymwybyddiaeth ofalagar. Pan ddechreuodd cyfyngiadau symud COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ni allai'r Caffi Llesiant barhau fel y bwriadwyd. Canolbwyntiodd fersiwn ar-lein o'r caffu ar weithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar, trafodaethau grŵp, gweithgareddau celf a chrefft, a gweithgareddau ysgafn fel cwisiau. Darparwyd hyfforddiant Zoom i gyfranogwyr ac roedd cyfleoedd i wirfoddoli trwy arwain neu hwyluso gweithgareddau yn ystod y sesiynau.**

**Dechreuodd Food Share fel bwrdd FareShare Cymru yng nghefn y Caffi Llesiant. Golygodd cyfyngiadau COVID-19 o fis Mawrth 2020 bod angen gwahanol ddull a rhoddodd gyfle i ymateb i gau Banciau Bwyd Ymddiriedolaeth Trussell dros dro ar draws gorllwin Bro Morgannwg oherwydd y pandemig. Agorwyd adeilad CF61 i'r cyhoedd o fis Awst 2020 gyda chymorth gan FareShare Cymru. Gweithredodd gwirfoddolwyr ac aelodau staff o bob gorsaf. Yn ogystal â darparu bwyd i bobl, mwynhaodd gwirfoddolwyr ReBUILD fanteision cymdeithasol y ddarpariaeth.**

**Wrth i deimladau o ynysigrwydd leihau trwy gymryd rhan yn ReBUILD, cynyddodd hyder a hunan-barch y cyfranogwyr. Nid oes amheuaeth bod y sgiliau a'r profiad a enilwyd trwy wirfoddoli gyda Phrosiect ReBUILD wedi arwain at hyder newydd ac awydd i barhau i wirfoddoli yn y dyfodol.**

**Ategodd Cronfa Cymunedol Track 2000 brosiect ReBUILD wrth i Gydgysylltydd Gwirfoddolwyr rhan-amser ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau gwirfoddoli. Rydym wedi llwyddo i sicrhau blwyddyn arall o gyllid i fenter FoodShare a grëwyd gan brosiect ReBUILD barhau.**

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM




## EIN HYSTADEGAU

**81%**

o'r ymatebwyr i'r arolwg cyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned mewn rhyw ffordd

**94%**

o ymatebwyr i'r arolwg cyfranogwyr yn awgrymu bod ReBUILD wedi lleihau eu synnwyr o ynysigrwydd

**45**

yn dod i'r Caffi Llesiant bob wythnos cyn y cyfyngiadau symud

## EIN HADBORTH

Rwy'n gallu bwydo fy nheulu ac arbed arian ar yr un pryd a gwneud ffrindiau newydd na fyddwn wedi eu hadnabod pe bawn i wedi aros yn y tŷ.
**Defnyddiwr Food Share**

Mae fy iechyd wedi cael ei helpu yn fawr iawn o gymryd rhan mewn rhywbeth mor bwrpasol, am un diwrnod yr wythnos yn unig.
**Gwirfoddolwr yn y Caffi Llesiant**

Roedd yn rhywle y gallwn i fynd a pheidio cael pobl yn edrych i lawr arnaf i. Fe wnaethon nhw i mi deimlo'n gyfforddus iawn, maen nhw'n bobl hyfryd. Maen nhw'n agored am y problemau y maen nhw wedi eu cael ac yna gallwch uniaethu ac rydych chi'n teimlo nad ydych yn cael eich barnu.
**Cyfranogwr ReBUILD**

# CF61 - CYFLEUSTER CYMUNEDOL

Mae'n sicr wedi bod yn flwyddyn ddiddorol i redeg canolfan gymunedol! Dechreuodd yn ystod y cyfyngiadau symud, a oedd yn golygu bod CF61 wedi cau, a chafodd staff eu harallgyfeirio i wneud rhywfaint o'r gwaith newydd a grëwyd i GVS gan y cyfyngiadau symud.

Ond wrth i'r haf ddod, dechreuodd y tîm ystyried sut y byddai CF61 yn gallu ail-agor mor ddiogel â phosibl, pan roedd deddfwriaeth yn caniatáu hynny. Astudiwyd y ddeddfwriaeth yn ofalus gan gynnal asesiad risg llawn o'r lleoliad a chyflwyno arwyddion, protocol a chyfeiriadu newydd.

I gychwyn, roedd deddfwriaeth yn caniatáu i ganolfannau cymunedol fod yn agored ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn unig. Felly roeddem wrth ein boddau ym mis Awst bod Food Share CF61 yn gallu ailgychwyn. Cynhaliodd CF61 31 o ddigwyddiadau Food Share rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2021.

Yna, ym mis Medi, roedd CF61 yn gallu ail-agor o'r diwedd i'w ar sail gyfyngedig iawn, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff ac addysg oedolion, gweithgareddau i blant cyn-ysgol a rhai sesiynau llesiant i gynorthwyo'r rhai a oedd yn arbennig o agored i niwed oherwydd ynysigrwydd cymdeithasol. Yna, yn dilyn y cyfnod atal byr o bythefnos ar ddechrau mis Tachwedd, caniataodd ymlacio pellach y ddeddfwriaeth i fwy o grwpiau cymdeithasol gyfrafod yn y Ganolfan.  Pan agorwyd y Ganolfan i grwpiau nad oeddent yn rhai hanfodol rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020, croesawyd 123 o archebion gennym, gan gynnwys dychwelyd i'r ffigur cyn y cyfyngiadau symud o 14 grŵp yn defnyddio'r Ganolfan yn rheolaidd.

Mae croesawu hen grwpiau a rhai newydd wedi golygu helpu pob un i gynllunio eu gweithgarwch ac asesu ei risg yn y lleoliad, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau COVID. Bu'n rhaid i ni fod yn gwbl ystyriol o ddeddfwriaeth y Llywodraeth a diwygio pob asesiad risg yn unol â hynny, er enghraifft i hwyluso cyfyngiadau symud lleol ac unrhyw lacio cyfyngiadau. Bu'n rhaid i ni ddatblygu a gweithredu protocolau glanhau a diheintio llym, er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth, ond hefyd i fodloni gofynion ychwanegol cyrff llywodraethu llawer o'r grwpiau sy'n mynychu.

Roedd yn ofynnol o dan gyfraith COVID i CF61 gau eto o ddiwedd mis Rhagfyr. O fis Ionawr i fis Mawrth 2021, galwyd ar CF61 i weithredu a chynhaliodd naw Clinig Brechu COVID-19, gan gychwyn rhaglen a alluogodd yn uniongyrchol i frechu graddfa fawr gael ei gyflawni yng ngorllewin y Fro. Mae CF61 wedi ymwreiddio yn ei chymuned ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth.

# Y GWAHANIAETH A WNAETHOM



## EIN HYSTADEGAU

**31**

o ddigwyddiadau Food Share wedi'u cynnal yn CF61 rhwng Awst 2020 a Mawrth 2021

**9**

o Glinigau Brechu rhag COVID-19 wedi'u cynnal yn CF61 rhwng Ionawr a Mawrth 2021

**123**

o archebion wedi'u gwneud yn CF61 pan agorwyd y ganolfan i grwpiau nad ydynt yn nrhai hanfodol rhwng Medi a Rhagfyr 2020

## EIN HADBORTH

Hoffwn ddweud gwaith pa mor dda wnaeth CF61 drwy agor a rhoi'r cyfle i'n Clwb Taekwondo Llanilltud Fawr ddychwelyd i ymarfer cyn gynted â phosibl. Roedd yn golygu gymaint i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan, yn ystod blwyddyn galed iawn i bobl ifanc yn gyffredinol. Diolch yn fawr.
**Meistr Paul Jones 6ed Dan,**
**Taekwondo Llanilltud Fawr a Chymru**

Diolch i CF61 am bopeth yr ydych chi wedi ei wneud i gadw eich drysau yn agored pryd bynnag y bo deddfwriaeth wedi caniatáu hynny yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i ni allu siarad â rhywun am yr hyn sy'n bosibl, ac i allu cynnig cyfleoedd eto. Mae'r cyfathrebu a'r cymorth wedi bod yn wych. Gwnaed pethau ymarferol fel asesiadau risg a hylendid mor hawdd â phosibl i'r defnyddwyr, ac nid yw dim byth yn ormod o drafferth. Rydym yn lwcus iawn o fod â chyfleusterau o'r fath yn Llanilltud.
**Drusilla Phillimore, Croeso Llanilltud**

# DEWIS CYMRU

Mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS) wedi derbyn cyllid pellach i barhau i ddarparu Golygydd Dewis i gefnogi'r wefan Dewis Cymru ym Mro Morgannwg.

Cyfeiriadur Iechyd a Llesiant ar-lein yw Dewis Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am wahanol wasanaethau iechyd a llesiant yn eich ardal leol. Gall llesiant gynnwys hapusrwydd, cymdeithasu, teimlo'n ddiogel a llawer mwy.

Ein swyddogaeth yw hyrwyddo'r wefan a helpu eraill i hyrwyddo eu gwasanaethau. Mae hefyd yn cynnwys annog grwpiau neu sefydliadau cymunedol nad ydynt ar y wefan i gofrestru eu hadnoddau. Oherwydd y pandemig, bu'n rhaid i ni hyrwyddo Dewis Cymru yn wahanol eleni gan symud tuag at ddarpariaeth electronig.

Cysylltwyd â 156 o sefydliadau yn y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo'r defnydd o Dewis Cymru ym Mro Morgannwg, roedd 134 o'r adnoddau hyn wedi dod i ben, yn bennaf oherwydd cau dosbarthiadau a digwyddiadau. Ymatebodd 136 o sefydliadau a chyhoeddwyd eu hadnoddau ar y wefan wrth i lawer symud i gynnig eu gwasanaethau o bell.

Hyrwyddwyd Dewis mewn 14 o wahanol gyfarfodydd ar-lein ac fe'i hyrwyddwyd ar ffurf datganiadau i'r wasg ar wefan GVS, cylchgrawn e-Vista, yn e-fwletinau GVS, drwy'r sianelau cyfryngau cymdeithasol ac wedi'u dosbarthu i gyfryngau lleol.

Derbyniwyd pedair galwad ffôn i esbonio sut i gyhoeddi adnoddau.
Cysylltwyd a 22 o sefydliadau yr oedd eu hadnoddau ar y ffordd ac fe'u cyhoeddwyd o ganlyniad.



# TÎM GVS

## Bwrdd Ymddiriedolwyr

Graham Benfield OBE, Cadeirydd
Conway Hawkins, Dirprwy Cadeirydd
Lynda Wallis, Dirprwy Gadeirydd
Sian Davies
Steve Cox
Mari Major MBE
Pat Finch
Jodi Winter
Michael Edwards (ymddeolodd ym mis Tachwedd 2020)
Chris Economides
Paul Hawkins

## Staff a Gwirfoddolwyr

Rachel Connor, Prif Swyddog Gweithredol
Clive Curtis, Rheolwr Gweithredol
Paul Warren, Rheolwr Gweithredol
Linda Greenfield, Swyddog Cyllid
Linda Pritchard, Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lani Tucker, Swyddog Ardal Trydydd Sector / Golygydd Dewis
Kris Rees, Swyddog Datblygu
Janine Richardson, Swyddog Datblygu
Mark Stillman, Swyddog Marchnata ac Aelodaeth
Ceri Venners, Swyddog Gweinyddol
Cath Haines, Cynorthwyydd Gweinyddol / Golygydd Dewis
Llinos Thomas, Swyddog Digwyddiadau
Carole Jones, Swyddog Cyswllt Cymunedol y Fro
Rhian Thomas, Swyddog Prosiect Gofalwyr Cysylltiedig
Clare Humphreys, Arweinydd a Chydgysylltydd Gwirfoddolwyr Prosiect ReBUILD
Mim Davenport, Cydgysylltydd Gwirfoddolwyr ReBUILD
Debbie Leigh, Gweinyddwr Prosiect ReBUILD
Leanne Taylor, Cydgysylltydd Gwirfoddolwyr ReBUILD
John Diestro, Gwirfoddolwr

Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GVS)
Ffôn: 01446 741706  E-bost: enquiries@gvs.wales
Gwefan: www.gvs.wales  Social Media: @GVolServices
Rhif Elusen Gofrestredig 1163193
Rhif Cwmni Cyfyngedig trwy Warant  9517850

TRUSTED CHARITY MARK LEVEL 1 NCVO

RYDYM YN DDIOLCHGAR I'N HARIANNSORRYWYR:

Llywodraeth Cymru Welsh Government
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board
Track 2000